**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:00a.m., DYDD LLUN, 4 MAWRTH 2013**

**10:00a.m., MONDAY, 4 MARCH 2013**

Lleoliad / Location

**SIAMBR DAFYDD ORWIG,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**(01286) 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 22.03.13

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**CENTRAL LICENSING COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eddie Dogan Huw Edwards

Annwen Hughes Chris Hughes

W. Tudor Owen Ann Williams

Gethin G. Williams

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eryl Jones-Williams Christopher O'Neal

Angela Russell Elfed Williams

**Llais Gwynedd (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

John Brynmor Hughes Llywarch Bowen Jones

Peter Read Gruffydd Williams

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor/Chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2012, fel rhai cywir.

(copi yma – papur **gwyn**)

**5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

(a) 29 Tachwedd 2012
(b) 12 Rhagfyr 2012

(copi yma – papur **gwyrdd**)

**6. DEDDF CERDDORIAETH FYW 2012**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio

(copi yma – papur **aur**)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 10.12.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Eddie Dogan, Huw Edwards, Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Christopher O'Neal, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams, Gruffydd Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Peter Read, Gethin G. Williams

Croeso
Croesawyd y Cynghorydd Huw Edwards yn ôl i'r pwyllgor yn dilyn ei lawdriniaeth diweddar.

Cofion
Anfonwyd cofion am wellhad buan at y Cynghorydd Peter Read.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Medi 2012, fel rhai cywir.

**3. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 18, 22 Hydref a 20 Tachwedd 2012.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**4. PWERAU TRWYDDEDU NEWYDD – GORCHMYNION CYFYNGIADAU GWERTHU ALCOHOL YN FUAN YN Y BORE**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar y defnydd a goblygiadau'r Gorchmynion Cyfyngiadau Buan yn y Bore (EMRO's) i Gyngor Gwynedd fel awdurdod trwyddedu

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu bod y grym a roddir i'r awdurdod trwyddedu i wneud, amrywio neu ddiddymu EMRO wedi ei amlinellu yn

Rheoliadau 2012 (Gorchmynion Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn Fuan yn y Bore) Deddf Trwyddedu 2003. Mae'r pŵer hwn yn caniatau i awdurdod trwyddedu wahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol o amser rhwng 00.00 a 06.00 mewn rhan o'i ardal, neu yn yr ardal gyfan, os yw'n fodlon y byddai gweithredu'n y fath fodd yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Nododd y dyluniwyd Gorchmynion Cyfyngiadau Buan yn y Bore i fynd i'r afael â phroblemau cyson megis trosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig â lefelau uchel o yfed alcohol mewn ardaloedd penodol, ar adegau penodol; niwsans cyhoeddus difrifol ac achosion eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd alcohol nad ydynt yn deillio'n uniongyrchol o eiddo penodol. Gellir rhoddi EMRO ar holl ardal yr awdurdod trwyddedu neu rhan ohono. Mae EMRO yn ymwneud â chyflenwi alcohol dan awdurdod eiddo trwyddedig, tystysgrifau eiddo clwb a rhybuddion am ddigwyddiadau tros dro. Nid yw EMRO yn berthnasol i weithgareddau trwyddedig eraill. Tynnodd sylw at y canllaw a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Gartref ar y gorchmynion hyn.

Rhaid i'r penderfyniad i roddi EMRO i eiddo trwyddedig yng Ngwynedd ai peidio fod wedi ei seilio ar dystiolaeth. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor allu dangos ei fod wedi defnyddio'r pwerau presennol sydd ar gael yn Neddf Trwyddedu 2003 (fel y'i diwygiwyd) yn llawn er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Rhaid ystyried tystiolaeth gan bartneriaid, megis yr heddlu, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ac awdurdodau cyfrifol eraill, ynghyd â thystiolaeth o wasanaethau trwyddedu a gwarchod y cyhoedd y Cyngor. Mae'r Swyddfa Gartref yn ei ganllaw diwygiedig a gyflwynwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003, yn ei gwneud yn glir mai'r awdurdodau trwyddedu sy'n y sefyllfa orau i bennu pa gamau sy'n briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn eu hardal hwy. Dylid hefyd ystyried y faich posibl ar y sawl sy'n dal trwydded eiddo, yn ogystal â'r buddion yn nhermau hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Rhoddodd fanylion am y mesurau eraill y gellir eu cymryd yn lle'r EMRO.

Nododd bod Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn nodi y gellir defnyddio gwybodaeth berthnasol a ddelir gan awdurdodau cyfrifol megis yr heddlu a Iechyd yr Amgylchedd o fewn y Cyngor i sefydlu'r sail tystiolaeth ar gyfer datblygu Polisi Effaith Cronnus. Byddai gwybodaeth o'r fath yn cynnwys tystiolaeth o gynnydd mewn digwyddiadau trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus, yn gysylltiedig â chrynodiad sylweddol o eiddo trwyddedig mewn ardal benodol.

Mewn perthynas â chyflwyno EMRO, os oes gan yr awdurdod trwyddedu ddigon o dystiolaeth i ddangos ei fod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, gallai gynnig gwneud un. Byddai'n ofynnol hysbysu'r holl ddeiliaid trwydded eiddo o fanylion y cynnig yn ysgrifenedig.

Mae cyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran y diwydiant, eisoes wedi nodi y byddant yn herio awdurdodau trwyddedu lleol sy'n bwriadu cyflwyno gorchmynion o'r fath. Byddai'n ofynnol i'r Cyngor fel awdurdod trwyddedu a'r heddlu, allu darparu tystiolaeth os y cânt eu herio, bod y pwerau sydd ar

gael ar hyn o bryd drwy Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, wedi cael eu defnyddio'n llawn i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig â'r economi hwyr y nos, ac i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae'r broses adolygu trwydded yn arf pwerus iawn, ac os y'i defnyddir yn llawn gan y Cyngor a'r heddlu gan weithio mewn partneriaeth, gallai fod yn ddigon i gyflawni'r effaith a ddymunir, gan sicrhau ar yr un pryd nad yw'r diwydiant eiddo trwyddedig yn cael ei lethu ar adeg mor anodd yn economaidd.

Cyfeiriodd aelod nad yw perchenogion rhai busnesau trwyddedig a sefydlir yn ymwybodol bod angen trwydded a bod angen rhoddi sylw i'r mater.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn ymwybodol am unrhyw berson a agorir eiddo trwyddedig i gynnal gweithgareddau sydd angen trwydded. Os y canfyddir y cynhelir gweithgareddau trwyddedig heb drwydded, dylai'r Cyngor gael y wybodaeth ac yna fe gysylltir â'r unigolion er sicrhau eu bod yn mynd drwy'r broses priodol.

Gofynnodd aelod os y gweithredir yr EMROS gan gynghorau eraill.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd yn ymwybodol ar hyn o bryd am unrhyw awdurdod a oedd wedi mabwysiadu'r gorchmynion hyn.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn nad oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i gyflwyno EMROS gan nad yw grymoedd sydd ar gael dan y darpariaethau deddfwriaethol trwyddedu presennol wedi eu defnyddio'n llawn hyd yn hyn i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.**
**b) Cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor nesaf ar y datblygiadau gyda chynghorau eraill yn y maes hwn.**

**5. PWERAU TRWYDDEDU NEWYDD – Y DRETH HWYR Y NOS**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio yn rhoddi manylion am ddefnydd a goblygiadau'r Dreth Hwyr y Nos sef y pŵer newydd a roddwyd i awdurdodau trwyddedu drwy ddarpariaeth Pennod 2, Rhan 2, Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu mai bwriad y pŵer newydd yw galluogi'r Cyngor fel yr awdurdod trwyddedu i godi treth ar bobl sydd â thrwydded i werthu alcohol yn hwyr yn y nos yng Ngwynedd, fel modd o gael cyfraniad y gellir ei ddefnyddio tuag at gostau plismona'r economi hwyr y nos. Pe byddai'r Cyngor yn penderfynu codi'r dreth, byddai'n berthnasol i Wynedd gyfan ac yn daladwy gan y sawl sy'n dal trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb, sy'n caniatau gwerthu neu gyflenwi alcohol gan ddechrau am neu wedi hanner nos, a gorffen am neu cyn 06.00. Rhaid i eiddo nad ydynt yn dymuno gweithredu yn ystod cyfnod y dreth, er mwyn osgoi talu'r dreth, wneud cais am wyro trwydded eiddo am ddim, er mwyn newid yr oriau trwyddedig cyn i'r dreth ddod i rym. Nododd bod canllaw diwygiedig y

Swyddfa Gartref, a wnaed dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003, yn argymell mai'r Cyngor llawn ddylai benderfynu ar gyflwyno, amrywio neu derfynu'r dreth, neu dirprwyir y penderfyniad mewn modd sy'n briodol ym marn y Cyngor. Fodd bynnag, disgwylir i'r Cyngor fel yr awdurdod trwyddedu, drafod yr angen am y dreth gyda Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a etholwyd yn ddiweddar. Cynhaliwyd eisoes, drafodaethau anffurfiol gyda Heddlu Gogledd Cymru ond ni dderbyniwyd cais ffurfiol ganddynt i ystyried y dreth.

Cyfrifoldeb y Cyngor yw ystyried yn ofalus a oes risg ariannol wrth gyflwyno'r dreth ac a fyddai'r refeniw a ddisgwylir o'r dreth yn cyfiawnhau'r gost o gyflwyno'r dreth. Dim ond 30% o refeniw'r dreth allai'r Cyngor ei gadw. Rhaid defnyddio'r arian i ariannu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i ymdrin â throsedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol yn hwyr yn y nos. Mae'n ofynnol i o leiaf 70% o refeniw'r dreth aros gyda'r heddlu, ond nid oes unrhyw reidrwydd arnynt i ddefnyddio'r refeniw hwnnw i blismona ardaloedd lle mae trosedd a anhrefn yn uchel o ganlyniad i'r economi hwyr y nos. Dylid ystyried a yw'n briodol ai peidio i gyflwyno'r dreth yng Ngwynedd cyn i'r Cyngor fynd i gostau drwy'r broses ymgynghori ffurfiol. Wrth benderfynu a yw'r dreth yn opsiwn hyfyw ai peidio, dylai'r Cyngor ystyried a oes digon o eiddo sydd â thrwydded i gyflenwi alcohol yn hwyr yn y nos i gynhyrchu digon o refeniw. Rhoddodd fanylion am y tâl a godir bob blwyddyn ar bob eiddo trwyddedig sydd o fewn sgôp y dreth.

Os penderfynir cyflwyno'r dreth, yna byddai'n rhaid cael proses ymgynghori llawn gan dargedu'r rhai hynny a effeithid gan y dreth yn arbennig y sawl sy'n dal trwydded ac yn debygol o orfod talu'r dreth, yr heddlu, trigolion a phartion eraill sydd â diddordeb.

Nododd bod cyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran y diwydiant trwyddedig eisoes wedi nodi y byddant yn herio awdurdodau trwyddedu lleol sy'n penderfynu cyflwyno'r dreth. Rhaid i'r Cyngor fel awdurdod trwyddedu a Heddlu Gogledd Cymru allu darparu tystiolaeth, os cânt eu herio, bod y pwerau sydd ar gael ar hyn o bryd drwy Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, wedi cael eu defnyddio'n llawn i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig â'r economi hwyr y nos. Mae'r broses adolygu trwydded yn arf pwerus iawn, ac os y'i defnyddir yn llawn gan y Cyngor a'r heddlu gan weithio mewn partneriaeth, gallai fod yn ddigon i gyflawni'r effaith a ddymunir, gan sicrhau ar yr un pryd nad yw'r diwydiant eiddo trwyddedig yn cael ei lethu ar adeg mor anodd yn economaidd.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn bod angen defnyddio pwerau'r ddeddfwriaeth drwyddedu presennol yn llawn cyn y gellid ystyried yr angen i gyflwyno'r dreth yng Ngwynedd.**
**b) Cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor nesaf ar y datblygiadau gyda chynghorau eraill yn y maes hwn.**

## 6. ADOLYGU'R DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar adolygu'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu.

Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu y cyflwynodd Deddf Trwyddedu 2003 yr angen i awdurdodau trwyddedu lunio Datganiad o Bolisi Trwyddedu, yn dilyn ymgynghoriad llawn gyda rhanddeiliaid.

Nododd ei bod yn ofynnol i'r polisi gael ei adolygu bob tair blynedd i sicrhau ei fod yn parhau i gyrraedd y nod o safbwynt hyrwyddo amcanion y Ddeddf Trwyddedu. Cyflwynwyd y polisi i'r Cyngor llawn ar 16 Rhagfyr 2010 yn dilyn adolygiad llawn a mân newidiadau i'r cynnwys ac fe'i derbyniwyd gydag argymhelliad bod mân gamgymeriadau a ganfuwyd yn y polisi'n cael eu cywiro. Oherwydd amryfusedd, ni gywirwyd y mân gamgymeriadau yn y polisi ar y pryd, ac ni gyflwynwyd y polisi'n ôl i'r aelodau er mwyn cymeradwyo'r cywiriadau yn dilyn hynny.

Oherwydd newidiadau sylweddol a ddaeth i rym yn ddiweddar i'r Deddf Trwyddedu gyda darpariaethau Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, yn ogystal â'r Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012, fe fydd yn ofynnol i ddiwygio'r polisi yn ei gyfanrwydd yn 2013.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012. hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu y gallai gyflwyno manylion am y ddeddf i'r pwyllgor nesaf.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn y polisi yn ei ffurf presennol hyd nes yr adolygir y polisi yn ei gyfanrwydd yn 2013.**
**b) Cyflwyno manylion am Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012 i'r pwyllgor nesaf.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben amb 10.50am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 29.11.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Anwen Hughes a John Brynmor Hughes

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Alwyn Thomas (Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – CELL B, SGWÂR Y PARC, BLAENAU FFESTINIOG**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ymgeisydd:** Mr Ian Rogers (Ymgeisydd) a Ms Dawn Parry

**Ar ran yr Heddlu:** Heddwas Dylan Jones

**Ar ran Cell B, Sgwâr y Parc, Blaenau Ffestiniog:** Mr Rhys Roberts (Deilydd y drwydded) a Mark Williams

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies a'r Cynghorydd Paul Thomas (Aelod ward cyffiniol)

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Llywarch Bowen Jones

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Mr Ian Rogers, Park Villa, Sgwâr y Parc, Blaenau Ffestiniog i adolygu trwydded eiddo Cell B, Sgwâr y Parc, Blaenau Ffestiniog oherwydd ymddygiad gwrth-gymdeithasol a sŵn yn hwyr yn y nos yn deillio o weithgareddau trwyddedig a gynhelir yn yr eiddo. Yn ogystal, cyfeiria'r ymgeisydd at achosion lle y bu iddo dystio diffyg cydymffurfiad ag amodau'r drwydded sef –
a) Caniatau i gwsmeriaid adael yr eiddo gyda diodydd alcohol.
b) Cwsmeriaid a oedd yn amlwg yn feddw yn cael mynediad i'r eiddo.
c) Caniatau i gwsmeriaid yfed alcohol fel eu bod wedi meddwi digon i achosi niwed iddynt eu hunain neu eraill.
Gofynnai'r ymgeisydd i drwydded yr eiddo gael ei adolygu mewn perthynas â'r argymhellion canlynol -
i) Diddymu'r hawl i werthu alcohol oddi ar y drwydded.
ii) Ystyried y cais i orchymyn bod Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig newydd yn cael ei apwyntio mewn perthynas â'r drwydded.
iii) Cwtogi'r oriau y caniateir i'r eiddo fod yn agored o 00.00 i 21.00.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, ni dderbyniwyd sylwadau gan Gyngor Tref Blaenau Ffestiniog, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor na Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd Amgylchedd. 'Roedd yr aelod lleol (ward cyffiniol) a nifer o'r trigolion yn gwrthwynebu'r adolygiad oherwydd nad oes tystiolaeth bod gweithgareddau'r eiddo cyfagos a rheolaeth o'r eiddo'n tanseilio'r amcanion trwyddedu. Cyfeirir hefyd at gyfraniad gweithgareddau'r eiddo at ddiwylliant lleol a ffyniant busnesau ond nid yw'r ystyriaethau hyn yn berthnasol i amcanion Deddf Trwyddedu 2003. Derbyniwyd cadarnhad gan yr heddlu y derbyniwyd galwadau gan yr ymgeisydd. Yn ogystal cafwyd cadarnhad i'r heddlu roddi hysbysiad cosb i ddwy ferch yn dilyn digwyddiad o ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Nid yw'r heddlu wedi derbyn galwadau eraill gan drigolion Sgwâr y Parc ynglyn â'r eiddo.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii) Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii) Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Adroddodd yr aelod lleol ei bod yn gwrthwynebu'r adolygiad ac yn cefnogi deilydd y drwydded oherwydd bod Cell B yn cyfrannu'n helaeth i fywyd cymdeithasol y dref. Nododd bod deilydd y drwydded y fodlon cydweithio â phawb ac 'roedd yn cynnig symud y llecyn ysmygu o'r ffrynt i gefn yr adeilad ac efallai y byddai hynny'n fodd o oresgyn y cwynion. Fel aelod lleol, nid oedd wedi derbyn unrhyw gwynion am y sefyllfa ac 'roedd yn awyddus i'r ddwy ochr allu cydweithio.

'Roedd yr ymgeisydd o'r farn y byddai symud y llecyn ysmygu i gefn yr adeilad yn parhau i greu trafferthion i fyny'r ffordd ac yn achosi niwsans i'r trigolion yn y fan honno. Nododd bod ymddygiad rhai o'r bobl yn y llecyn ysmygu yn peri pryder iddo. Cyfeiriodd at gwsmeriaid yn feddw'n dod o'r adeilad, iaith anweddus, pobl yn chwydu a piso ar y stryd, sŵn, ac effaith hyn ar ei deulu. Cyfeiriodd at sawl DVD a dynnodd a oedd yn rhoddi tystiolaeth am y gwahanol ddigwyddiadau ac 'roedd yn awyddus i'r is-bwyllgor eu gweld. Nododd nad oedd yn fwriad ganddo i weld yr eiddo'n cael ei gau.

Nododd y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu iddo roddi cyngor i'r ymgeisydd parthed cyflwyno'r cais am adolygiad. 'Roedd wedi dangos rhai o'r DVD's iddo ac 'roedd o'r farn ei bod yn bwysig i'r is-bwyllgor weld y dystiolaeth a welir arnynt. Mewn ymateb, hysbysodd y cyfreithiwr mai mater i'r is-bwyllgor yw penderfynu os ydynt angen gweld y DVD's. Nododd dan y ddeddf berthnasol, byddai angen i'r ymgeisydd gael hawl i ddangos y DVD's. Cadarnhaodd yr ymgeisydd iddo gael cadarnhad gan swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth bod ganddo'r hawl i ddangos y DVD's. Datganodd Cyfreithiwr y Cyngor bod angen cadarnhad pellach ynglyn â phriodoldeb dangos y dystiolaeth gan bod yn bosibl adnabod unigolion yn y DVD's, 'roedd o'r farn na ddylid ystyried y dystiolaeth hon.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd deilydd y drwydded y sylwadau canlynol –

- Y cynhaliwyd cyfarfod eisoes gyda'r gwahanol gyrff perthnasol pryd y cytunwyd i gydweithio ond yn anffodus ar ôl y cyfarfod hwnnw bu i'r ymgeisydd osod arwyddion yn erbyn Cell B heb gysylltu ag ef fel deilydd y drwydded.
- Ei fod yn fodlon cydweithio â'r ymgeisydd er ceisio gwella'r sefyllfa.
- Os y symudir y llecyn ysmygu i gefn yr adeilad, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio neu ganiatâd dan y rheoliadau adeiladu.
- Byddai'n bosibl cael goleuadau gwell yn ffrynt yr adeilad a rhagor o arwyddion.
- Bod amod ar y drwydded yn atal pobl rhag mynd â diodydd allan o'r adeilad ar ôl 19.00.

Cytunwyd i ohirio'r cyfarfod am ychydig er rhoddi cyfle i'r ymgeisydd a deilydd y drwydded geisio dod i gyfaddawd parthed gwella rheolaeth yr eiddo.

Yn dilyn y gohiriad, cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod, yn dilyn canfod cyfaddawd gyda deilydd y drwydded, yn diwygio ei gais adolygiad gan newid yr argymhellion o ran newidiadau i'r drwydded i'r rhai canlynol –
a) Bod yr eiddo'n darparu arwyddion digonol yn gofyn i gwsmeriaid fod yn ddistaw.
b) Bod yr eiddo, yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio a/neu rheolaeth adeiladu, yn darparu goleuo addas ar y safle.
c) Bod staff diogelwch, pan fydd gofyn iddynt fod yn bresennol, yn gwneud ymdrech gorau i atal cwsmeriaid rhag ymgynnull yn union tu allan i'r brif fynedfa.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cyfaddawd a gytunwyd rhwng yr ymgeisydd a deilydd y drwydded gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau'r cais adolygu fel y'i diwygiwyd:**
**1. Ychwanegwyd yr amodau canlynol i'r drwydded -**
**a) Bod yr eiddo'n darparu arwyddion digonol yn gofyn i gwsmeriaid fod yn ddistaw.**
**b) Bod yr eiddo, yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio a/neu rheolaeth adeiladu, yn darparu goleuo addas ar y safle.**
**c) Bod staff diogelwch, pan fydd gofyn iddynt fod yn bresennol, yn gwneud ymdrech gorau i atal cwsmeriaid rhag ymgynnull yn union tu allan i'r brif fynedfa.**
**2. a) Awgrymu bod yr eiddo'n codi a chadw silff wrth y brif fynedfa er mwyn i gwsmeriaid osod diodydd yno pan yn mynd tu allan, a bod goruchwyliaeth o ddefnydd y silff**
**b) Awgrymu wrth ddeilydd y drwydded y dylid ail-leoli'r llecyn ysmygu yng nghefn yr adeilad, ond ni osodwyd hyn fel amod.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – LAST INN, STRYD YR EGLWYS, ABERMAW**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Last Inn, Stryd yr Eglwys, Abermaw:** Mr Gregory Courtney (Deilydd y drwydded), Mrs Debra Courtney a Mr Edward Fenlon

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y preswylwyr cyfagos:** Mr George Burns, Mrs Joy Burns, Mrs Wendy Ponsford, Mrs Ann Smith, Mrs Linda Smith

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Gethin G. Williams

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Last Inn, Stryd yr Eglwys, Abermaw i wyro'r drwydded i ganiatau ymestyn yr oriau a ganiateir gweithgareddau trwyddedig yn yr eiddo, yn benodol o safbwynt cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, perfformiadau dawns a gwerthiant alcohol. Rhoddodd fanylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig. Ar wahân i Nos Calan, gofynnir am estyniad i'r hawl i gyflenwi alcohol o ddiwedd yr oriau a ganiateir ar 31 Rhagfyr hyd at ddechrau'r oriau a ganiateir y diwrnod canlynol. Nododd y cyflwynwyd y cais yn dilyn cyngor a dderbyniwyd gan yr Uned Gorfodaeth Trwyddedu. Yn

ogystal, derbyniwyd llythyr gan yr ymgeisydd yn amlinellu ei resymau tros gyflwyno cais am ymestyn yr oriau.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, ni dderbyniwyd sylwadau gan Gyngor Tref Abermaw na Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd Amgylchedd. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Derbyniwyd e-bost gan Uned Gorfodaeth Trwyddedu'r Cyngor yn cadarnhau yr ymwelodd y swyddogion â'r eiddo oherwydd bod gweithgareddau trwyddedig yn cael eu cynnal tu hwnt i'r oriau a ganiateir ar y drwydded gyfredol. Cofnodwyd yn ystod yr ymweliad bod cwsmeriaid yn bresennol a gweithgareddau trwyddedig yn parhau i gymryd lle am 00.50, yn groes i amodau'r drwydded gyfredol. Derbyniwyd sylwadau hefyd gan yr Heddlu a llythyrau gan rhai o'r trigolion cyfagos yn cefnogi ac yn gwthwynebu'r cais.

Nododd ymhellach y derbyniwyd 11 rhybudd o ddigwyddiad tros dro gan ddeilydd y drwydded er mwyn cynnal gweithgareddau trwyddedig am awr yn ychwanegol, bob nos Fawrth a nos Sadwrn rhwng 6 Tachwedd a 11 Rhagfyr 2012. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan yr awdurdodau perthnasol i'r rhybuddion hyn.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.

ii. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau.

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau.

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Hysbysodd y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu y derbyniwyd cwyn nad yw'r ymgeisydd yn cydymffurfio â'r oriau a ganiateir ar y drwydded gyfredol. Ar 29 Medi 2012, sylwyd bod cwsmeriaid yn bresennol yn yr eiddo a gweithgareddau trwyddedig yn parhau i gymryd lle am 00.50, yn groes i amodau'r drwydded. Trafodwyd y sefyllfa ar y pryd gyda'r ymgeisydd pryd y penderfynwyd y byddai'n fwy priodol gan na allent weithio o fewn yr oriau cyfredol, i gyflwyno cais am wyriad.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu nad oes gan yr heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais. Nododd mai'r unig alwadau a dderbyniwyd hyd yn hyn yn ystod 2012, yn gysylltiedig â'r eiddo oedd gan un o berchenogion yr eiddo ar dri achlysur yn ystod diwedd Hydref a dechrau Tachwedd 2012. Derbyniwyd hefyd geisiadau am Rybuddion Digwyddiadau Tros Dro ar gyfer yr eiddo i ganiatau gwerthu alcohol ac adloniant rheoledig hyd at 01.00, sy'n unol â'r cais am wyriad. Hyd yn hyn, maent wedi cael oriau ychwanegol dan y rhybuddion hyn ar saith achlysur ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion.

Hysbysodd deilydd y drwydded y cyflwynir y cais er cyd-fynd â'r oriau a ganiateir ar gyfer sefydliadau cyffelyb eraill yn y dref. Nododd y sefydlwyd yr eiddo fel tafarn ers blynyddoedd ac iddynt redeg y busnes ers 25 mlynedd heb unrhyw drafferthion. 'Roedd yn fusnes a oedd wedi cynyddu tros y blynyddoedd a chyflogir 14 o bobl yno. Ceisir lleihau cryfder y sŵn o'r adeilad a threfnir i gau'r ffenestri am 22.30 yn ddyddiol yn enwedig yn ystod tymor yr haf. Ni chaniateir mynediad i'r eiddo ar ôl yr amser cau.

Manteisiodd y preswylwyr lleol oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- 'Roedd y preswylwyr a oedd yn byw drws nesaf i'r eiddo'n gwrthwynebu'r cais oherwydd y sŵn a ddeuai oddi yno yn hwyr yn y nos a bod hynny'n effeithio ar eu hiechyd. Ar fwy nag un achlysur gofynnwyd i'r perchennog geisio lleihau'r sŵn, ond nid oedd wedi cymryd sylw o hynny ac mae'r sŵn yn parhau. Cyfeiriodd hefyd at loriau'n parcio tu allan i'w eiddo i ddadlwytho a bod hynny hefyd yn creu sŵn. Fodd bynnag, nid oedd gwrthwynebiad i'r oriau presennol.
- 'Roedd preswylydd arall yn byw tu cefn i'r eiddo ac yn cefnogi'r cais. Nododd bod y dafarn yn cael ei rheoli'n dda ac nid oedd sŵn i'w glywed oddi yno.
- 'Roedd preswylydd arall hefyd yn cefnogi'r cais oherwydd nid oedd yn ymwybodol am broblemau yn deillio o'r eiddo a'i fod yn hwb i dref dwristaidd fel Abermaw.

Nododd yr aelod lleol ei fod yn cefnogi'r cais gan ei fod yn cydymffurfio â'r amcanion trwyddedu. 'Roedd yr eiddo'n cael ei redeg yn dda ac nid oes tystiolaeth o ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Mae'r eiddo mewn ardal fasnachol o'r dref a ger yr harbwr. Nid oes gwrthwynebiad i'r cais gan yr heddlu. Gan bod sefydliadau cyffelyb eraill yn agor yn hwyrach, 'roedd o'r farn bod angen cysondeb gyda'r cais hwn.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Last Inn, Stryd yr Eglwys, Abermaw fel a ganlyn –**

**a) Caniatau cerddoriaeth fyw dan baragraff E fel a ganlyn -**

- **Dydd Sul i ddydd Iau – rhwng 11.00 a 00.00**
- **Dyddiau Gwener a Sadwrn – rhwng 11.00 a 01.00**

**b) Caniatau cerddoriaeth wedi ei recordio dan baragraff F rhwng 11.00 a 01.00, dydd Llun i ddydd Sul**

**c) Caniatau perfformiadau dawns dan baragraff G rhwng 11.00 a 01.00, dydd Llun i ddydd Sul.**

**ch) Caniatau cyflenwi alcohol dan baragraff J rhwng 11.00 a 01.00, dydd Llun i ddydd Sul ar wahân i Nos Galan lle y caniateir cyflenwi alcohol o ddiwedd yr oriau a ganiateir ar 31 Rhagfyr hyd at ddechrau'r oriau a ganiateir y diwrnod canlynol.**

**d) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd dan baragraff L rhwng 11.00 a 01.30, dydd Llun i ddydd Sul.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**3. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – THE CROWN HOTEL, STRYD YR EGLWYS, ABERMAW**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran The Crown Hotel, Stryd yr Eglwys, Abermaw:** Mr Abdul Jalil (Deilydd y drwydded) a Mr Mohammad Jalil

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Gethin G. Williams

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran The Crown Hotel, Stryd yr Eglwys, Abermaw am drwydded eiddo i ganiatau gwerthu alcohol yn yr eiddo rhwng 17.00 a 23.00, saith diwrnod yr wythnos.

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd un ymateb gan berchennog busnes cyfagos. Gwneir honiadau yn y llythyr o hanes o dor-cyfraith mewn perthynas â safleoedd eraill ym mherchenogaeth perchennog yr eiddo. Mae'r honiadau a wneir yn berthnasol i'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn. Yn dilyn derbyn y llythyr, fe ymgynghorwyd ag Asiantaeth Ffiniau'r DU parthed yr honiadau a wneir gan y gwrthwynebydd. Derbyniwyd e-bost gan yr asiantaeth a dosbarthwyd copiau i aelodau'r is-bwyllgor a oedd yn cadarnhau i ddeilydd y drwydded dderbyn rhybudd parthed yr honiadau o gyflogi pobl heb hawl i drigo/gweithio yn y Deyrnas Unedig.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Mewn ymateb i'r uchod, nododd deilydd y drwydded y cyflogwyd myfyrwyr o wledydd tramor ganddo yn yr eiddo ym Mhorthmadog a Criccieth. Nododd bod ganddo drwydded bersonol ers oddeutu 12 mlynedd. Cadarnhaodd na fyddai'n cyflogi mewnfudwyr anghyfreithlon o hyn ymlaen.

Hysbysodd yr aelod lleol nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r cais.

Nid oedd gan yr heddlu unrhyw sylwadau ar y cais.

Nid oedd y gwrthwynebydd yn bresennol yn y cyfarfod i ymhelaethu ar ei lythyr.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd

- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer The Crown Hotel, Stryd yr Eglwys, Abermaw fel a ganlyn –**
**a) Gwerthu alcohol dan baragraff M rhwng 17.00 a 23.00, dydd Llun i ddydd Sul.**
**b) Yr eiddo ar agor i'r cyhoedd dan baragraff O rhwng 17.00 a 23.30, dydd Llun i ddydd Sul.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**4. EITEM FRYS – RHYBUDDION DIGWYDDIADAU TROS DRO – STAR KEBAB, 323, STRYD FAWR, BANGOR**

(Cytunodd y Cadeirydd dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol i gynnwys yr eitem hon fel eitem frys oherwydd bod angen gweithredu'n ddiymdroi)

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>**

**Ar ran Star Kebab, 323, Stryd Fawr, Bangor:** Mr Mhemet Kabadayi (Deilydd y drwydded) a Mr David Farley (Cyfreithiwr)

**Ar ran yr Heddlu:** Rhingyll Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru) a Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu y derbyniwyd 15 o Rybuddion Digwyddiad Tros Dro ar 19 Tachwedd 2012 mewn perthynas â'r Star Kebab, 323, Stryd Fawr, Bangor. Mae'r rhybuddion hyn yn gofyn am ymestyn oriau agor yr eiddo awr yn hwyrach na'r hyn a ganiateir ar y drwydded bresennol ar gyfer 15 achlysur, rhwng nos Fercher a nos Sadwrn, yn dechrau ar 5 Rhagfyr hyd at 29 Rhagfyr 2012. Gofynnir am estyniad hyd 03.00 ar nosweithiau Mercher a Iau a than 03.30 ar nosweithiau Gwener a Sadwrn.

Cyfeiriodd at sylwadau'r heddlu ar y rhybuddion i ymestyn yr oriau masnachu ar 5, 6, 7, 8, 12, 13, 14, 15, 18, 20, 21, 22, 24, 28 a 29 Rhagfyr 2012. Cyflwynodd yr heddlu yn Nhachwedd 2011, gais i adolygu trwydded yr eiddo oherwydd nad oedd yn cydymffurfio â'r amodau trwyddedu a'r ffaith bod sawl digwyddiad o anhrefn yn yr eiddo. Mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog ar 12 Ionawr 2012, cymeradwywyd cais yr heddlu a chwtogwyd oriau masnachu'r eiddo o awr yn ddyddiol. Rhoddwyd amodau ychwanegol ar y drwydded parthed cyflogi goruchwylwyr drysau cofrestredig gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch o 23.00 hyd nes y byddai'r eiddo'n cau ar nosweithiau Iau, Gwener a Sadwrn ac ar y dydd Sul cyn unrhyw ddydd Llun sy'n Ŵyl Banc. Gosodwyd amod teledu cylch cyfyng hefyd ar y drwydded.

Yn dilyn penderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu ar 12 Ionawr 2012, apeliodd deilydd y drwydded yn erbyn y penderfyniad ond pan ymddangosodd gerbron Llys Ynadon Caernarfon ar 28 Awst 2012 fe dynnodd yr apêl yn ôl a olygai bod penderfyniad gwreiddiol yr Is-bwyllgor Trwyddedu 12 Ionawr 2012 yn sefyll ac yn dod i rym yn syth. Yn ystod y broses apêl, cafwyd digwyddiadau pellach o anhrefn yn gysylltiedig â'r eiddo.

Yn dilyn y gwrandawiad apêl, dylai'r eiddo fod yn masnachu dan yr oriau gweithredu newydd. Ar ddau achlysur mae'r heddlu wedi arsylwi'r eiddo'n masnachu tu allan i'w horiau a riportiwyd deilydd y drwydded am gyflawni gweithgarwch trwyddedadwy yn ddiawdurdod yn groes i Adran 136 Deddf Trwyddedu 2003. Fe ymddangosodd gerbron Llys Ynadon Caernarfon ar 19 Tachwedd 2012 pryd y cafodd ei ryddhau'n amodol am 12 mis a thalu costau. Ar ddyddiau Gwener a Sadwrn, 16 a 17 Tachwedd 2012, sylwyd bod yr eiddo'n gweithredu ar ôl 23.00 heb oruchwylwyr drysau yn groes i'r amodau trwyddedu. Dengys hyn ddiystyrwch llwyr i'r amodau a osodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu.

‘Roedd yr heddlu’n gwrthwynebu’r rhybuddion hyn yn eu cyfanrwydd oherwydd os y caniateir yr oriau estynedig, byddai’n tanseilio’r amcan o atal trosedd ac anhrefn.

Cyfeiriodd y Rhingyll Bill Coppack at y cais i adolygu’r drwydded eiddo a ystyriwyd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu ar 12 Ionawr 2012. Adroddwyd i’r cyfarfod hwnnw ar 16 o droseddau a recordiwyd gan yr heddlu yn ystod 2010/11 a ddigwyddodd yn, neu’n gysylltiedig â’r eiddo. Cyfeiriodd at ymosodiad ar 23 Medi 2011 pryd y torrodd un o’r cwsmeriaid ei drwyn yn ystod oriau masnachu. Mewn perthynas â’r achos hwn, nododd ei fod yn ran o’r ymchwiliad ac iddo sylweddoli yr adeg hynny bod swyddogion yn cael anawsterau o ran cael gafael ar dystiolaeth teledu cylch cyfyng parthed troseddau a gyflawnwyd yn yr eiddo. Rhoddwyd cyfle i’r is-bwyllgor ar 12 Ionawr 2012 gael gweld “DVD” a oedd yn dangos pobl tu allan i’r eiddo’n bwyta, gwaredu ysbwriel a.y ar ôl yr amser cau o 03.30. O’r 16 o droseddau a recordiwyd, ‘roedd 11 yn ymwneud â digwyddiadau o drais ac ar bob un o’r digwyddiadau hyn fe ofynnodd yr heddlu am dystiolaeth teledu cylch cyfyng, ond ni lwyddodd deilydd y drwydded i ddarparu’r wybodaeth hon. O ganlyniad, penderfynodd yr is-bwyllgor i gwtogi’r oriau agor o awr, pob noson o’r wythnos. Rhoddodd fanylion am ddigwyddiad arall ar 30 Rhagfyr 2011 pryd yr ymosodwyd ar eneth ifanc, ac yn yr achos hwn hefyd nid oedd tysiolaeth teledu cylch cyfyng wedi ei recordio. Yn dilyn penderfyniad yr is-bwyllgor ar 12 Ionawr 2012, apeliwyd yn erbyn y dyfarniad. Tra’n aros am ddyddiad yr apêl, rhoddodd fanylion am ddigwyddiad arall am 01.10 ar 20 Ebrill 2012 yn gysylltiedig â’r eiddo pryd y sylwyd nad oedd goruchwylwyr drysau’n bresennol. Yn hwyrach yr un noson gwelwyd person yn piso yn nrws yr eiddo. Ers i’r apelydd dynnu’r apêl yn ôl mae’r amodau y cytunwyd gan yr is-bwyllgor ar 12 Ionawr 2012 wedi dod yn weithredol a oedd yn cynnwys cyflogi goruchwyliwr drws. Ar 16 Tachwedd 2012 sylwyd bod yr eiddo’n agored am 01.00 ac nad oedd goruchwyliwr drws yn bresennol. Yn ogystal ar sawl achlysur ar 23 a 24 Tachwedd 2012 sylwyd nad oedd goruchwyliwr drws yn bresennol yn yr eiddo. ‘Roedd yn amlwg felly nad yw deilydd y drwydded yn cydymffurfio ag amodau’r drwydded gyfredol. Nododd i’r is-bwyllgor ar 12 Ionawr 2012, wneud y penderfyniad cywir i leihau oriau agor yr eiddo. Mae’r dyddiadau y gofynnir amdanynt yn y Rhybuddion Digwyddiadau Tros Dro yn ddyddiadau allweddol yn y cyfnod a arweiniai at y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd ac yn gyfnod prysur i’r heddlu a’r gwasanaethau brys eraill. Nododd iddo drafod gwrthwynebiadau’r heddlu â chyfreithiwr deilydd y drwydded yr wythnos ddiwethaf pryd y’i gwahoddwyd i’r eiddo i weld y teledu cylch cyfyng a sylwyd ei fod yn gweithio ac yn recordio yn unol ag amodau’r drwydded. Mewn perthynas a chadw cofrestr o bob goruchwyliwr drws a gyflogir i weithio’n yr eiddo, sylwyd mai’r cofnod olaf yn y gofrestr oedd 18 Tachwedd 2012 rhwng 00.00 a 00.30 ac mai’r cofnod cyn hynny oedd ar 22 Medi 2012 a chyn hynny ar 18 Awst 2012. Ers i’r drwydded gael ei ddiwygio i gynnwys amod i gyflogi goruchwyliwr drws, ‘roedd yna gyfnodau felly na chydymffurfiwyd â’r amod. Yn wyneb yr holl ddigwyddiadau y cyfeirir atynt uchod, ‘roedd o’r farn y byddai caniatau’r Rhybuddion Digwyddiadau Tros Dro ac yn ymestyn yr oriau yn debygol o ychwanegu at y risg o drosedd ac anhrefn. Nododd os y caniateir y rhybuddion hyn, yna yr eiddo hwn fyddai’r unig un ym Mangor a fyddai’n agored tan 03.30.

Mewn ymateb i rhai o’r pwyntiau uchod, nododd cyfreithiwr deilydd y drwydded bod sylwadau’r heddlu’n gywir. Cyfeiriodd at gyfarfod o’r Is-bwyllgor Trwyddedu ar 12 Ionawr 2012 pryd y cytunwyd i’r holl amodau. Nododd mai rhai o’r amodau oedd bod yr eiddo’n gosod ac yn cynnal a chadw system teledu cylch cyfyng digidol; cyflogi goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch a chadw cofrestr o bob goruchwyliwr drws a gyflogir i weithio’n yr eiddo. ‘Roedd o’r farn bod deilydd y drwydded wedi cydymffurfio â’r amodau hynny. Yn dilyn cyfarfod o’r is-bwyllgor ar 12 Ionawr 2012, cyflwynwyd apêl yn erbyn y penderfyniad ac yn wyneb hynny nid oedd rheidrwydd ar ddeilydd y drwydded i weithredu’r amodau hyd nes y gwrandawyd yr apêl. Cadarnhaodd y cyflogwyd goruchwyliwr drws yn yr eiddo ac nid yw deilydd y drwydded yn dymuno cael unrhyw drafferthion yno. ‘Roedd yr amodau a gynhwyswyd ar y drwydded gyfredol yn ddigonol i ymdrin ac unrhyw broblemau a fyddai’n debygol o ddigwydd yn yr eiddo. Cyfeiriodd at unigolion meddw yn dod i gyffiniau’r eiddo o dafarndai’r ddinas ac yn creu helynt, ac ‘roedd hynny’n achosi pryder i ddeilydd y drwydded. Os mai’r eiddo hwn fyddai’r un yn agor hwyraf yn y ddinas yna byddai’n cael monopoli am yr amser ychwanegol. Cyfeiriodd at eiddo arall cyffelyb ym Mangor a oedd yn masnachu tan 03.15. ‘Roedd deilydd y drwydded angen yr awr ychwanegol oherwydd ei fod yn hanfodol ar gyfer parhad ei fusnes. Ers i’r apêl gael ei dynnu’n ôl yn Awst 2012 ‘roedd deilydd y drwydded wedi ceisio gweithredu o fewn yr oriau trwyddedig newydd ond ‘roedd wedi achosi iddo golli oddeutu hanner ei incwm. Ar yr

adegau lle sylwodd yr heddlu nad oedd goruchwylwyr ar y drws, ‘roedd yr adegau hynny yn ddistaw ac i’r deilydd benderfynu eu hanfon gartref. Nododd ei fod oddeutu chwe mis yn hwyr gyda’i rent ac nid yw’r busnes ar hyn o bryd yn hyfyw. ‘Roedd deilydd y drwydded yn rhedeg y busnes ers oddeutu 14 blynedd ac ar un adeg ‘roedd ganddo drwydded i agor am 24 awr. Pan gymerodd y lle trosodd, ‘roedd y drwydded yn enw perthynas iddo ac ‘roedd hynny wedi bodoli am nifer o flynyddoedd, ond ym Mawrth 2012, trosglwyddwyd y drwydded i’w enw ef. Oherwydd y nam gweinyddol hwn ni wrandawyd yr apêl. Er y gofynnwyd am estyniad yn yr oriau agor tan 03.30 ar nosweithiau Gwener a Sadwrn, byddai agor tan 03.15 yn dderbyniol gan deilydd y drwydded. Cydnabu ei fod yn amser prysur o’r flwyddyn a dymunai deilydd y drwydded gael yr estyniad hwn yn yr oriau yn barhaol. ‘Roedd o’r farn y byddai’r Rhybuddion Digwyddiadau Tros Dro yn fodd o wella’r busnes. Nododd na werthir alcohol yn yr eiddo ac felly nid oes digwyddiadau o feddwod yn deillio o’r eiddo hwn. ‘Roedd deilydd y drwydded yn cydymffurfio â’r amod parthed y system teledu cylch cyfyng digidol ac yn cofnodi pob rhan o’r eiddo sydd ar agor i’r cyhoedd. Nododd ei fod yn fusnes teuluol sy’n cyflogi rhwng tri a chwech o bobl. Gofynnodd i’r is-bwyllgor ystyried caniatau’r rhybuddion a fyddai’n fodd i ddeilydd y drwydded allu profi ei hun yn ystod y cyfnod y gofynnir amdano.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rhingyll Bill Coppack ymhellach nad yw deilydd y drwydded wedi cydymffurfio â llawer o’r amodau ar y drwydded. Er nad yw’r eiddo’n gwerthu alcohol, sylwyd ar sawl achlysur bod cwsmeriaid sy’n feddw yn cael eu gweini yno.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau’r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

O ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ‘roedd yr aelodau o’r farn gan nad oedd yr amodau y cytunwyd arnynt gan yr is-bwyllgor ar 12 Ionawr 2012 yn dod yn weithredol tan ar ôl dyddiad yr apêl yn Awst 2012, y dylid rhoddi cyfle pellach i ddeilydd y drwydded gydymffurfio â hwy. Teimlwyd nad oedd achos yr heddlu’n ddigon cryf.

**PENDERFYNWYD caniatau Rhybuddion Digwyddiadau Tros Dro ar gyfer y Star Kebab, 323, Stryd Fawr, Bangor i ymestyn yr oriau agor hyd at 03.00 ar nosweithiau Mercher a Iau a hyd at 03.15 ar nosweithiau Gwener a Sadwrn ar y dyddiadau a nodir uchod.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu’r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o’u hawl i apelio i’r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.30am a daeth i ben am 5.30pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 12.12.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Angela Russell a Gruffydd Williams

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – VAYNOL ARMS, ABERSOCH

Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu y derbyniwyd cais am drwydded eiddo gan y Vaynol Arms, Abersoch i ymestyn yr oriau i gynnal gweithgareddau trwyddedig megis cerddoriaeth fyw, perfformiad dawns, cerddoriaeth wedi ei recordio a gwerthu alcohol. Derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau i'r cais.

Ers y cyflwynwyd y cais, daeth darpariaethau'r Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012 i rym a olygai ddiddymu'r hawl i reoleiddio cerddoriaeth fyw fel gweithgaredd trwyddedig mewn rhai amgylchiadau. Cynhaliwyd trafodaeth rhwng y Swyddog Iechyd Amgylchedd a chyfreithiwr yr ymgeisydd parthed effaith y ddeddfwriaeth newydd ar yr hyn a ofynnir amdano yn y cais o safbwynt cerddoriaeth fyw. Dan ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth newydd nid yw perfformiad cerddoriaeth fyw yn weithgaredd sydd angen trwydded os yw'n cymryd lle ar eiddo trwyddedig rhwng 08.00 a 23.00. Cytunodd yr ymgeisydd i ddiwygio'r cais o safbwynt cerddoriaeth fyw. Ni ofynnir bellach am yr hawl i gynnal cerddoriaeth fyw tu allan i'r eiddo ar ôl 23.00, yn unol â'r hyn a ganiateir dan Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012. Yn wyneb hyn, cynhaliwyd trafodaeth rhwng yr ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr ac 'roeddynt yn fodlon tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl. Cytunodd yr ymgeisydd i'r amodau sŵn o safbwynt adloniant rheoledig a gynhelir ar yr eiddo trwyddedig.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chadarnhau'r camau a gymerwyd.**

## 2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – ARCHFARCHNAD ASDA, Y TRAETH, PWLLHELI

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Archfarchnad Asda, Y Traeth, Pwllheli:** Ms Clare Johnson (Cyfreithiwr) a Mr Stuart Lee (Rheolwr yr Archfarchnad)

**Aelod Lleol**: Y Cynghorydd Michael Sol Owen

Cyn dechrau ystyried y cais, tynnwyd sylw gan y Cadeirydd at y ffaith bod yr aelod lleol yn bresennol ond nid oedd wedi cyflwyno ei sylwadau'n ysgrifenedig ar y cais. Nododd mai'r drefn arferol yw bod angen i'r sylwadau gael eu hanfon i'r Adran Drwyddedu o fewn cyfnod penodedig cyn y rhoddir hawl i'r aelod lleol gael siarad. Gofynnodd i'r cyfreithiwr os oedd yn fodlon i'r aelod lleol lleol gael cyflwyno ei sylwadau ar lafar.

Mewn ymateb, hysbysodd y cyfreithiwr ei bod yn gwrthwynebu i'r aelod lleol gael cyflwyno ei sylwadau ar lafar oherwydd iddo gael digon o amser i anfon ei sylwadau i'r Adran Drwyddedu o fewn yr amser penodedig.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Archfarchnad Asda, Y Traeth, Pwllheli i wyro trwydded i ganiatau ymestyn oriau gwerthiant alcohol ac oriau agor i'r cyhoedd rhwng 06.00 a 00.00 dydd Llun i ddydd Sul. Yn ogystal, gofynnir am ganiatâd i werthu lluniaeth hwyr y nos rhwng 23.00 a 00.00 ar yr un dyddiau. Ar hyn o bryd, caniateir i'r

eiddo agor rhwng 08.00 a 22.00, dydd Llun i ddydd Sul gyda gwerthiant alcohol drwy gydol y cyfnod hwn.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Ni dderbyniwyd sylwadau gan yr aelod lleol, Cyngor Tref Pwllheli, yr Awdurdod Cynllunio Lleol na'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd Amgylchedd. Derbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu'r cais gan breswylwyr cyfagos.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais.

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

vii. Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi'r cais, nododd cyfreithiwr ar ran y cwmni y sylwadau canlynol –

- Y gofynnir am ymestyn yr oriau tan 00.00 yn bennaf er mwyn gallu gwerthu bwydydd megis cywion ieir poeth a.y.
- Bod mwyafrif o siopau'r cwmni yn agor yr oriau y gofynnir amdanynt ac ni chafwyd unrhyw broblemau gyda'r oriau hyn.
- Bod gan y cwmni fesur lle maent yn cydymffurfio â'r amodau a osodir ar unrhyw drwydded.
- Y gosodwyd teledu cylch cyfyng ar yr eiddo a'i fod yn gweithio'n ddigon da i'r heddlu a'r awdurdod lleol allu monitro tu mewn a thu allan i'r eiddo.
- Nid oedd gan yr heddlu na chyrff eraill wrthwynebiad i'r cais.
- Ni fyddai'r cais yn tanseilio'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn.
- Mai un llythyr a dderbyniwyd yn gwrthwynebu'r cais ac nid oedd y gwthwynebwyr wedi trafod eu pryderon gyda rheolwr yr archfarchnad. 'Roedd yn cydymdeimlo â'r gwrthwynebwyr ond nid oedd digon o dystiolaeth i brofi bod y loriau'n dadlwytho am 06.00 ac mai eu polisi yw i beidio â dadlwytho cyn 07.00.
- Ni erlyniwyd y cwmni am werthu alcohol i blant dan oed.
- Bod yr archfarchnad yn ased i'r gymuned.
- Byddai angen rhesymau cryf tros wrthod y cais.
- Os caniateir y cais byddai'n bosibl i'r gwrthwynebwyr ofyn am adolygiad.

Nid oedd y gwrthwynebwyr yn bresennol yn y cyfarfod i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr.

Tynnwyd sylw gan yr aelodau at y difrod i'r bariau ar y llwybr a arweiniai o'r safle i'r stryd fawr. Mewn ymateb, hysbysodd y cyfreithiwr ar ran y cwmni nad yw'r llwybr yn eu perchenogaeth hwy, ond addawodd roddi sylw i'r mater.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Archfarchnad Asda, Y Traeth, Pwllheli fel a ganlyn –**
**a) Caniatau gwerthu lluniaeth hwyr y nos dan baragraff I rhwng 23.00 a 00.00, dydd Llun i ddydd Sul.**
**b) Caniatau gwerthu alcohol dan baragraff J rhwng 06.00 a 00.00. dydd Llun i ddydd Sul.**
**c) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd dan baragraff O rhwng 06.00 a 00.00, dydd Llun i ddydd Sul.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.45am a daeth i ben am 12.30pm

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **4 MAWRTH 2012** |
| **TEITL:** | **DEDDF CERDDORIAETH FYW 2012** |
| **PWRPAS:** | **ER GWYBODAETH** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CEFNDIR

Fe ddaeth y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012 i rym ar y 1af o Hydref 2012 gan ddiwygio'r Ddeddf Drwyddedu 2003 drwy ddi - reoleiddio yn rhannol perfformiad o gerddoriaeth fyw a diddymu'r angen i drwyddedu darpariaeth o gyfleusterau ar gyfer adloniant.

Pwrpas cyflwyno'r newidiadau hyn yw hyrwyddo darpariaeth o adloniant a cherddoriaeth fyw ar gyfer cynulleidfaoedd bychan.

## Crynodeb o'r newidiadau

Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn -

- Ni fydd angen trwyddedu cerddoriaeth fyw heb chwyddseinydd rhwng 8 y bore ac 11 yr hwyr mewn unrhyw fan
- Ni fydd angen trwyddedu cerddoriaeth fyw drwy chwyddseinydd rhwng 8 y bore ac 11 yr hwyr mewn eiddo sydd wedi ei drwyddedu i werthu alcohol ar gyfer cynulleidfa o ddim mwy na 200 o bobl.
- Ni fydd angen trwyddedu cerddoriaeth fyw drwy chwyddseinydd rhwng 8 y bore ac 11 yr hwyr i gynulleidfa o ddim mwy na 200 o bobl mewn gweithleoedd.
- Diddymir y r angen i drwyddedu darpariaeth o gyfleusterau ar gyfer adloniant.
- Fe ehangir ar yr eithriad i ganiatáu cerddoriaeth fyw pan mae yn rhan o berfformiad o ddawns draddodiadol; fel bod yr eithriad hefyd yn cynnwys cerddoriaeth drwy chwyddseinydd a cherddoriaeth wedi ei recordio.

Mae cerddoriaeth fyw (gan gynnwys cerddoriaeth drwy chwyddseinydd ac wedi ei recordio) yn parhau i fod yn drwyddedig o dan yr amgylchiadau canlynol –

- Pan mae cerddoriaeth fyw boed drwy chwyddseinydd neu fel arall yn digwydd cyn 8 y bore neu ar ôl 11 yr hwyr
- Pan mae perfformiad o gerddoriaeth fyw drwy chwyddseinydd yn digwydd mewn unrhyw fan nad yw yn eiddo trwyddedig; nac yn weithle nad yw yn drwyddedig ar wahân i fod yn drwyddedig i werthu lluniaeth hwyr yn y nos.
- Pan mae perfformiad o gerddoriaeth fyw drwy chwyddseinydd yn digwydd mewn eiddo trwyddedig pan nad yw'r eiddo yn agored ar gyfer y pwrpas o gyflenwi alcohol ar gyfer ei yfed ar yr eiddo.
- Pan mae perfformiad o gerddoriaeth fyw drwy chwyddseinydd yn cymryd lle mewn eiddo trwyddedig neu weithle; ym mhresenoldeb cynulleidfa o fwy na 200 o bobl.
- Lle mae'r Awdurdod Trwyddedu yn fwriadol yn diddymu effaith di reoleiddio'r Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012 drwy osod amod ar drwydded eiddo fel canlyniad i adolygiad o'r drwydded eiddo.

## Gwarchod Trigolion rhag sgil effeithiau negyddol yn deillio o gerddoriaeth fyw

Fel y nodir uchod, fe ellir gosod amodau mewn perthynas â cherddoriaeth fyw hyd yn oed rhwng 8 y bore a 11 y nos mewn eiddo trwyddedig sydd yn destun adolygiad oherwydd cwynion sŵn.

Yn ogystal, os nad yw trwydded eiddo cyfredol yn awdurdodi cerddoriaeth fyw mae'n bosib ychwanegu amodau i'r drwydded fydd yn cael yr un effaith petai'r gerddoriaeth fyw ar yr eiddo yn parhau i fod yn adloniant rheoledig; hyd yn oed rhwng 8 y bore a 11 yr hwyr.

Fe all yr Awdurdod Trwyddedu hefyd wneud penderfyniad fod cerddoriaeth fyw ar eiddo yn weithgaredd trwyddedig; ac na ellir caniatáu cerddoriaeth fyw heb ganiatâd ar y drwydded eiddo neu drwy Rybudd Digwyddiad Dros Dro.

Mae deddfwriaeth sydd yn ymwneud a rheoli niwsans sŵn - sef Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer sefyllfaoedd lle mae tystiolaeth fod sŵn yn niwsans statudol.

Nid bwriad y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012 yw caniatáu eiddo trwyddedig i greu niwsans sŵn.

## Di – reoleiddio adloniant ymhellach

Yn dilyn ymgynghoriad Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon y Llywodraeth yn 2011; mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflwyno mesurau pellach i ddi - reoleiddio adloniant; gan gychwyn ym mis Ebrill y flwyddyn hon.

Bwriedir di - reoleiddio'r canlynol -

- perfformiadau dawns a dramâu i gynulleidfaoedd i fyny i 500 o bobl rhwng 8 y bore a 11 yr hwyr
- Chwaraeon tu fewn i adeilad ar gyfer cynulleidfaoedd i fyny i 1,000 o bobl rhwng 8 y bore a 11 yr hwyr
- Cerddoriaeth fyw mewn eiddo trwyddedig a gweithleoedd ar gyfer cynulleidfa rhwng 200 a 500
- Cerddoriaeth wedi ei recordio i gael ei drin yn yr un modd a cherddoriaeth fyw mewn eiddo trwyddedig rhwng 8 y bore a 11 yr hwyr.
- Perfformiadau o ffilmiau, dramâu, chwaraeon o dan do, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio ar eiddo yn perthyn i Lywodraeth Leol, ysbytai, meithrinfeydd ac ysgolion ( ag eithr sefydliadau addysg uwch ) heb gyfyngiad ar nifer y gynulleidfa rhwng 8 y bore a 11 yr hwyr
- Eithrio'r sefydliadau uchod rhag gofynion trwyddedu mewn perthynas â cherddoriaeth fyw ac wedi recordio ar gyfer cynulleidfaoedd i fyny i 500 o bobl.
- Eithrio eiddo cymunedol fel neuaddau pentref ac eglwys, a chanolfannau cymunedol rhag gofynion trwyddedu ar gyfer cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio ar gyfer cynulleidfa i fyny i 500 o bobl.
- Fe fydd Syrcas yn cael ei eithrio ar gyfer perfformiadau o gerddoriaeth fyw ac wedi recordio, perfformiad dramâu, dawns a chwaraeon o dan do rhwng 8 y bore ac 11 yr hwyr, heb unrhyw gyfyngiad ar faint y gynulleidfa.

# 15. Regulated entertainment

## TYPES OF REGULATED ENTERTAINMENT

15.1 Subject to the conditions, definitions and the exemptions referred to in Schedule 1, the types of entertainment regulated by the 2003 Act are:

- a performance of a play;
- an exhibition of a film;
- an indoor sporting event;
- a boxing or wrestling entertainment (whether indoor or outdoor);
- a performance of live music (but note the changes brought in by the Live Music Act 2012 ("the 2012 Act"), see paragraph 15.10 below);
- any playing of recorded music;
- a performance of dance;
- entertainment of a similar description to a performance of live music, any playing of recorded music or a performance of dance.

15.2 However, these types of entertainment are only regulated where the entertainment takes place in the presence of an audience and is provided, at least partly, to entertain that audience.

## ACTIVITIES THAT DO NOT CONSTITUTE "REGULATED ENTERTAINMENT"

15.3 Licensing authorities should consider whether an activity constitutes the provision of regulated entertainment, taking into account the conditions, definitions and exemptions set out in Schedule 1 to the 2003 Act. This Guidance cannot give examples of every eventuality or possible activity. The following activities, for example, are not regulated entertainment:

- education – teaching students to perform music or to dance;
- activities which involve participation as acts of worship in a religious context;
- activities that take place in places of public religious worship;
- the demonstration of a product – for example, a guitar – in a music shop; or
- the rehearsal of a play or performance of music for a private audience where no charge is made with a view to making a profit (including raising money for charity).

15.4 Of course, anyone involved in the organisation or provision of entertainment activities – whether or not any such activity is licensable – must comply with any applicable duties that may be imposed by other legislation (e.g. crime and disorder, fire, health and safety, noise, nuisance and planning).

## ENTERTAINMENT FACILITIES

15.5 As a result of changes to the 2003 Act made by the 2012 Act, 'entertainment facilities' are no longer licensable. Conditions on a licence that relate solely to entertainment facilities may no longer apply, but note paragraphs 15.18 and 15.19 below.

## PRIVATE EVENTS

15.6 Events that are held in private are not licensable unless those attending are charged for the entertainment with a view to making a profit (including raising money for charity). For example, a party held in a private dwelling for friends featuring amplified live music, where a charge or contribution is made solely to cover the costs of the entertainment would not be regulated entertainment. Similarly, any charge made to the organiser of a private event by musicians, other performers, or their agents does not of itself make that entertainment licensable – it would only do so if the guests attending were themselves charged by the organiser for that entertainment with a view to achieving a profit. The fact that this might inadvertently result in the organiser making a profit would be irrelevant, as long as there had not been an intention to make a profit.

15.7 Schedule 1 to the 2003 Act also makes it clear that before entertainment is regarded as being provided for consideration, a charge has to be:

- made by or on behalf of a person concerned with the organisation or management of the entertainment; and
- paid by or on behalf of some or all of the persons for whom the entertainment is provided.

## PUB GAMES

15.8 Games commonly played in pubs and social and youth clubs (such as pool, darts, table tennis and billiards) would only be licensable activities if hosted in the presence of a public audience, to entertain, at least in part, that audience. For example, a darts championship competition is often licensable and could be a licensable activity, but a game of darts played for the enjoyment of the participants is not usually licensable.

## STAND UP COMEDY

15.9 Stand-up comedy is not regulated entertainment, and music that is incidental to the main performance would not make it a licensable activity. Licensing authorities should encourage operators to seek their advice, particularly with regard to their policy on enforcement.

## LIVE MUSIC

15.10 To encourage more performances of live music, the 2012 Act has amended the 2003 Act by deregulating aspects of the performance of live music so that, in certain circumstances, it is not a licensable activity. However, live music remains licensable:

- where a performance of live music – whether amplified or unamplified – takes place other than between 08:00 and 23:00 on any day;
- where a performance of amplified live music does not take place either on relevant licensed premises, or at a workplace that is not licensed other than for the provision of late night refreshment;
- where a performance of amplified live music takes place at relevant licensed premises, at a time when those premises are not open for the purposes of being used for the supply of alcohol for consumption on the premises;

- where a performance of amplified live music takes place at relevant licensed premises, or workplaces, in the presence of an audience of more than 200 people; or
- where a licensing authority intentionally removes the effect of the deregulation provided for by the 2003 Act (as amended by the 2012 Act) when imposing a condition on a premises licence or certificate as a result of a licence review (see paragraphs 15.23-15.24 below).

15.11 In any of the above circumstances, unless the performance of live music is appropriately authorised by a premises licence, club premises certificate or Temporary Event Notice, allowing it to continue could lead to enforcement action and a review of the alcohol licence or certificate.

## KEY TERMS USED IN THE LIVE MUSIC ACT 2012

15.12 Under the 'live music' provisions, 'music' includes vocal or instrumental music or any combination of the two". 'Live music' is a performance of live music in the presence of an audience which it is intended to entertain. While a performance of live music can include the playing of some recorded music, 'live' music requires that the performance does not consist entirely of the playing of recorded music without any additional (substantial and continual) creative contribution being made. So, for example, a drum machine or backing track being used to accompany a vocalist or a band would be part of the performance of amplified live music. A DJ who is merely playing tracks would not be a performance of live music, but might if he or she was performing a set which largely consisted of mixing recorded music to create new sounds. There will inevitably be a degree of judgement as to whether a performance is live music or not and organisers of events should be encouraged to check with their licensing authority if in doubt. In the event of a dispute about whether a performance is live music or not, it will ultimately be for the courts to decide in the individual circumstances of any case.

15.13 A "workplace" is as defined in regulation 2(1) of the Workplace (Health, Safety and Welfare) Regulations 1992 and is anywhere that is made available to any person as a place of work. It is a very wide term which can include outdoor spaces, as well as the means of entry and exit.

15.14 "Audience" – an activity is licensable as regulated entertainment if it falls within one or more of the descriptions of entertainment in paragraph 2 of Schedule 1 to the 2003 Act and takes place in the presence of an audience for whose entertainment (at least in part) it is provided. An audience member need not be, or want to be, entertained: what matters is that an audience is present and that the purpose of the licensable activity is (at least in part) intended to entertain any person present. People may be part of an audience even if they are not located in exactly the same place as the performers, provided they are present within the audible range of the performance. So, for example, if a band is performing in a marquee, people dancing outside that marquee may nevertheless be members of the audience. The audience will not include performers, together with any person who contributes technical skills in substantial support of a performer (for example, a sound engineer or stage technician), during any activities associated with that performance. These activities include setting up before the performance, reasonable breaks (including intervals) between songs and packing up thereafter. Similarly, security staff and bar workers will not form part of the audience while undertaking their duties, which includes reasonable breaks.

## MORRIS DANCING

15.29 The amendments to the 2003 Act by the 2012 Act extend the exemption relating to music accompanying Morris dancing in paragraph 11 of Schedule 1 to the 2003 Act, so that it applies to the playing of live or recorded music as an integral part of a performance of Morris dancing, or similar activity.

## INCIDENTAL MUSIC

15.30 In addition to provisions introduced by the 2012 Act, the performance of live music and playing of recorded music is not regulated entertainment under the 2003 Act to the extent that it is "incidental" to another activity which is not itself one of the entertainments described in paragraph 2(1) of Schedule 1 to the 2003 Act.

15.31 Whether or not music is "incidental" to another activity will depend on the facts of each case. In considering whether or not music is incidental, one relevant factor will be whether or not, against a background of the other activities already taking place, the addition of music will create the potential to undermine the promotion of one or more of the four licensing objectives of the 2003 Act. Other factors might include some or all of the following:

- Is the music the main, or one of the main, reasons for people attending the premises?
- Is the music advertised as the main attraction?
- Does the volume of the music disrupt or predominate over other activities, or could it be described as 'background' music?

15.32 Conversely, factors which would not normally be relevant in themselves include:

- The number of musicians, e.g. an orchestra providing incidental music at a large exhibition.
- Whether musicians are paid.
- Whether the performance is pre-arranged.
- Whether a charge is made for admission to the premises.

## SPONTANEOUS MUSIC, SINGING AND DANCING

15.33 The spontaneous performance of music, singing or dancing does not amount to the provision of regulated entertainment and is not a licensable activity because the premises at which these spontaneous activities occur would not have been made available to those taking part for that purpose.